**AC(2) 09-04(p2)**

**Adroddiad Achwilydd Cyffredinol Cymru: Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru**

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion y Pwyllgor Archwilio, yn dilyn eu hadroddiad a gyflwynwyd ar 5 Awst 2004.**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiolchgar am yr adroddiad. Rydym yn croesawu'r casgliadau ac yn cynnig yr ymatebion a ganlyn i'r pedwar argymhelliad ar ddeg yn yr Adroddiad.

**Argymhelliad i.**

**Wrth adolygu a monitro eu systemau ar gyfer cofnodi absenoldeb oherwydd salwch, y dylai Ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu defnyddio'n gyson a chyda'r un trylwyredd ymhlith pob grŵp o staff.**

Cytunwyd. Er mwyn bwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio Cymru gyfan i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu ar sail argymhellion yr adroddiad. Mae'r grŵp hwn yn atebol i brif Weithredwr GIG Cymru. Prif Weithredwr un o Ymddiriedolaethau GIG sy'n cadeirio'r grŵp ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o Ymddiriedolaethau'r GIG ac aelod o Fforwm Partneriaeth GIG Cymru. Gofynnwyd hefyd i Brif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol a fyddent yn hoffi anfon cynrychiolydd.

Bydd y Grŵp hwn yn datblygu safonau cyson ar gyfer rheoli salwch ac absenoldeb gan gynnwys methodoleg ganolog ar gyfer casglu data a chyflwyno adroddiadau ar draws y GIG yng Nghymru.

**Argymhelliad ii.**

**Yn sgil cyflwyno diffiniad cyffredin er mwyn mesur absenoldeb oherwydd salwch, bydd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am lefelau absenoldeb oherwydd salwch ar draws y GIG yng Nghymru ddiwedd blwyddyn ariannol 2004-05.**

Cytunwyd. Mae Dirprwy Gyfarwyddwyr Adnoddau Dynol GIG Cymru wedi datblygu diffiniad cyffredin. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau gan Grŵp Llywio Rheoli Salwch ac Absenoldeb ac yna'n cael ei ddefnyddio gan holl gyflogwyr y GIG yng Nghymru i ddarparu llinell sylfaen gyffredin a fydd yn caniatáu inni fonitro salwch ac absenoldeb yn effeithiol drwy Gymru. Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad yn rhoi'r ffigyrau diweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ddiwedd blwyddyn ariannol 2004 –05.

**<u>Argymhelliad iii.</u>**

**Y dylai Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd gan sefydliadau sydd wedi llwyddo i ostwng absenoldeb oherwydd salwch, megis Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent, yn cael eu rhannu ar draws y GIG yng Nghymru.**

Cytunwyd. Bydd y Grŵp Llywio Salwch ac Absenoldeb yn nodi arferion da presennol o ran salwch ac absenoldeb ac yn annog y GIG drwy Gymru gyfan i'w mabwysiadu.

**<u>Argymhelliad iv.</u>**

**Wrth geisio mynd i'r afael â lefelau absenoldeb oherwydd salwch, y dylai Ymddiriedolaethau'r GIG roi sylw arbennig i staff yn y rheng flaen megis nyrsys a bydwragedd, oherwydd gostyngiadau yn y lefelau absenoldeb oherwydd salwch ymhlith y grwpiau hyn sy'n debygol o arwain at y manteision gweithredol ac ariannol mwyaf.**

Cytunwyd. Bydd y Grŵp Llywio Salwch ac Absenoldeb yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu fframwaith o unedau gweithredu neu grwpiau staff at ddibenion sefydlu system wahanol o gofnodi absenoldeb oherwydd salwch a phennu targedau ar gyfer grwpiau penodol. Bydd hyn yn caniatáu inni fonitro salwch ac absenoldeb ar draws grwpiau staff tebyg. Yna bydd modd datblygu mentrau perthnasol i dargedu grwpiau staff penodol lle mae salwch ac absenoldeb yn effeithio ar y modd y cyflwynir gwasanaethau.

**<u>Argymhelliad v.</u>**

**Wrth bennu targedau diwygiedig ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a monitro'n fwy gofalus absenoldeb oherwydd salwch yn y dyfodol, y dylai Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad gyhoeddi ffigyrau ar y lefelau absenoldeb oherwydd salwch fel y gwna wrth gyhoeddi gwybodaeth allweddol arall am y gweithlu megis niferoedd staff a swyddi gwag. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod rheoli absenoldeb oherwydd salwch yn cynnal proffil uchel ar draws GIG Cymru.**

Cytunwyd. Bydd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad yn pennu targedau diwygiedig ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG. Bydd angen i Ymddiriedolaethau gyflwyno adroddiadau ar dueddiadau yng nghyfarfodydd Byrddau'r Ymddiriedolaethau. Bydd angen i Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolaethau gynnwys gwybodaeth am gyfraddau a thueddiadau absenoldeb oherwydd salwch. Bydd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyhoeddi ffigyrau salwch ac absenoldeb fel y gwna yng nghyswllt gwybodaeth allweddol arall am y gweithlu.

**<u>Argymhelliad vi.</u>**

**Y dylai Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad roi blaenoriaeth arbennig i waith y grŵp lefel uchel hwn a gafodd y dasg o roi ar waith yr argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ac yna ein diweddaru ymhen y flwyddyn ar yr hyn a gyflawnwyd.**

Cytunwyd. Mae gan y Grŵp Llywio Salwch ac Absenoldeb, dan gadeiryddiaeth Alison Williams, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru, gylch gwaith i gynhyrchu cynllun gweithredu manwl i Fwrdd Rheoli'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei gymeradwyo. Mae disgwyl iddo gynhyrchu adroddiad erbyn mis Ebrill 2005. Bydd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y cynllun hwnnw i'r Pwyllgor Archwilio.

**Argymhelliad vii.**

**Lle bo'n debygol o fod yn gost effeithiol i wneud hynny, dylai Ymddiriedolaethau'r GIG geisio adennill costau absenoldeb oherwydd salwch gan y trydydd partïon sy'n atebol.**

Cytunwyd. Caiff Ymddiriedolaethau'r GIG eu cyfarwyddo i adennill costau salwch ac absenoldeb gan drydydd partïon atebol os bydd hynny'n gost-effeithiol. Mae rhai ymddiriedolaethau'n gwneud hynny eisoes, ond oherwydd y trefniadau presennol ar gyfer cadw cyfrifon, nid yw'n hawdd gwahaniaethu yn y cyswllt hwn. Argymhellir y dylid cadw cyfrifon ar wahân mewn perthynas â'r adenillion hyn.

**Argymhelliad viii.**

**Y dylai arferion da ar ddefnyddio banc nyrsio mewnol gael eu hymestyn ar draws y GIG yng Nghymru gyda'r nod o leihau'n sylweddol y defnydd sy'n cael ei wneud o nyrsys asiantaeth gan leihau'r costau.**

Cytunwyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r Ymddiriedolaethau wrth iddynt ddatblygu systemau banc nyrsio mewnol a byddant yn sicrhau bod arferion da'n cael eu rhannu ar draws yr Ymddiriedolaethau.

**Argymhelliad ix.**

**Y dylai'r GIG yng Nghymru roi pwyslais arbennig ar yr angen i ddarganfod yn drylwyr i ba raddau y mae salwch yn gysylltiedig â gwaith yn bod a'r achosion am hynny er mwyn galluogi cyflogwyr i dargedu adnoddau yn effeithiol ac yn gymesur gyda'r nod o fynd i'r afael â'r broblem hon.**

Cytunwyd. Bydd systemau monitro newydd ar gyfer salwch ac absenoldeb gan Ymddiriedolaethau'r GIG yn nodi i ba raddau y mae salwch yn gysylltiedig â gwaith yn bod a'r achosion am hynny. Bydd hyn yn eu galluogi i weld y meysydd hynny lle mae problem a'r adnoddau sydd eu hangen i dargedu'r meysydd hynny.

**Argymhelliad x.**

**Y dylai Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad geisio cael eglurhad ar frys ar y categorïau i'w defnyddio i gofnodi achosion o absenoldeb oherwydd salwch o fewn y System Cofnodi Staff Electronig (ESR) er mwyn galluogi ymddiriedolaethau'r GIG i hyfforddi rheolwyr i ddefnyddio'r categorïau hyn cyn i'r system gael ei chyflwyno.**

Cytunwyd. Rydym wedi gofyn am eglurhad o'r categorïau i'w defnyddio ar gyfer cofnodi salwch ac absenoldeb ar y system Cofnodi Staff Electronig. Ar ôl cael yr wybodaeth, byddwn yn gallu penderfynu pa hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer rheolwyr.

**Argymhelliad xi.**

**Wrth ddatblygu canllawiau ar reoli absenoldeb oherwydd salwch, y dylai Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad sefydlu safonau gofynnol ar gyfer hyfforddiant ar reoli absenoldeb oherwydd salwch.**

Cytunwyd. Bydd y Grŵp Llywio Salwch ac Absenoldeb yn ystyried datblygu safonau priodol ar gyfer hyfforddiant ar reoli salwch ac absenoldeb.

**Argymhelliad xii.**

**Wrth geisio gwella gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar draws y GIG yng Nghymru, y dylai Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad ystyried a ellid darparu elfennau arbennig o'r ddarpariaeth hon, megis cynghori, yn well ar lefel Cymru gyfan.**

Cytunwyd. Mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn datblygu Fframwaith Iechyd a Diogelwch ar gyfer holl gyflogwyr y GIG yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ar ddarparu gwasanaethau penodol megis cynghori. Mae'n bosibl y byddai'n fanteisiol i gyflogwyr bychain y GIG weithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau eraill wrth ddarparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer eu gweithwyr cyflogedig. Mae hyn yn digwydd eisoes yng nghyswllt meddygon teulu, fferyllwyr a deintyddion sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol. Bwriedir cyhoeddi'r fframwaith yn 2005.

**Argymhelliad xiii.**

**Y dylai Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad sefydlu ei chanllawiau a'i safonau ei hun ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar draws GIG Cymru a monitro'n rhagweithiol yr hyn y mae'r ymddiriedolaethau'n ei wneud i fodloni'r safonau hynny.**

Cytunwyd. Bydd y Fframwaith Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn rhoi canllawiau i gyflogwyr y GIG yng nghyswllt darparu gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol. Mae'n cael ei ddatblygu ochr

yn ochr â gofynion y Safon Iechyd Corfforaethol y mae Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn gweithio tuag ato.

**Argymhelliad xiv.**

**Y dylai'r posibilrwydd o aruno mewn perthynas â'r ddarpariaeth iechyd galwedigaethol gael ei archwilio rhwng y GIG a'r awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn gwasanaethu'n well anghenion gweithwyr cyflogedig yn y ddau sector.**

Cytunwyd. Mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad yn ystyried y ffordd orau o gyflwyno Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod am unrhyw gynnydd yn y maes hwn, ynghyd â datblygiadau eraill sy'n codi o'r adroddiad hwn y flwyddyn nesaf.